



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Clyw i Blant



Fersiwn 2 Gorffennaf 2016

Rhagair

Croeso i'r Safonau Ansawdd Cenedlaethol ar gyfer Awdioleg Plant yng Nghymru 2016. Mae'n bleser gen i gadarnhau'r Safonau Ansawdd yn feincnodau i wasanaethau awdioleg y GIG i blant yng Nghymru.

Lansiwyd y fersiwn gyntaf o'r Safonau yn 2010 ac mae hynny wedi arwain at welliannau sylweddol yn narpariaeth gwasanaethau awdioleg i blant ledled Cymru. Mae'r ddogfen ddiwygiedig yn mireinio'r Safonau gwreiddiol, gan gadw nodweddion pwysig ond gan ymgorffori hefyd gamau i sicrhau ansawdd yn y Gwasanaethau Sgrinio Clyw Babanod. At hynny, mae'n ehangu'r mesurau ansawdd sy'n ymwneud â gwasanaethau cymhorthion clyw. Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf, egwyddorion arferion gorau a safonau clinigol wedi cael eu defnyddio i ddatblygu Safonau a fydd yn sicrhau gwasanaethau awdioleg o ansawdd dda i blant.

Mae'r gwaith wedi cael cefnogaeth gan weithwyr awdioleg proffesiynol a chynrychiolwyr y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ar draws Cymru a'r Alban, ynghyd â'r Grŵp Cynghori Sefydlog ar Awdioleg (ASSAG), sy'n rhan o Bwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru. Bydd rhoi'r Safonau ar waith yn helpu i annog cydweithio agos rhwng gweithwyr proffesiynol y GIG ac asiantaethau allanol er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau i blant a phobl ifanc Cymru.

Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r datblygiad pwysig hwn yn ein gwasanaethau awdioleg i blant.

Vaughan Gethin



Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Cyflwyniad

Cefndir

Yn 2010 cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o'r Safonau Ansawdd ar gyfer Awdioleg Bediatrig (sydd wedi'u hailenwi ers hynny yn Safonau Ansawdd ar gyfer Awdioleg Plant). Ers 2010/11 mae'r rhan fwyaf o wasanaethau awdioleg y GIG yng Nghymru wedi hunanasesu ac wedi cael archwiliadau allanol ar sail y Safonau hyn. Dim ond yn 2014 a 2015 y mae gwasanaeth De Powys wedi cael archwiliadau allanol.

Mae'n ymddangos bod y Safonau'n cael eu defnyddio'n llwyddiannus yng Nghymru, wrth i ansawdd y gwasanaeth ddatblygu'n sylweddol ledled y wlad. Fodd bynnag, mae'r broses hefyd wedi amlygu rhai meysydd o fewn y Safonau y gallai fod yn fuddiol eu diwygio; yn gyntaf, er mwyn sicrhau bod y safonau ansawdd yn parhau'n addas yn wyneb tystiolaeth newydd a datblygiadau mewn technoleg ac arferion. Mae cyfle hefyd i egluro a gwella'r modd y mae'r safonau'n cael eu defnyddio, gan sicrhau bod y broses archwilio'n parhau'n gadarn ac yn effeithiol. Mae Sgrinio Clyw Babanod Cymru (NBHSW) hefyd wedi galw am ymgorffori ei gamau i sicrhau ansawdd asesiadau diagnostig, a rheoli Awdiolegol cynnar ar ôl sgrinio, yn y Safonau wrth eu diwygio mewn unrhyw fodd.

Datblygu Ail Fersiwn y Safonau Ansawdd

Sefydlwyd Gweithgor ac arno uwch glinigwyr awdioleg, peidiatregyddion sy'n arbenigo mewn awdioleg, meddyg awdiofestibwlar, rheolwyr, cynrychiolwyr y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) ar ran y trydydd sector, a chynrychiolydd o NBHSW. Cafodd aelod ychwanegol o'r byd academiaidd ei gyfethol gan y gweithgor hefyd er mwyn adolygu'r dystiolaeth a datblygu'r rhestrau cyfeirio.

Amcanion y Gweithgor

Prif amcan y gweithgor oedd datblygu, ar y cyd, Ail Fersiwn y Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Awdioleg i Blant. Wrth wneud hyn, ystyriwyd y meysydd canlynol lle gellid gwneud newidiadau:

1. ystyried pa mor berthnasol oedd y Meini Prawf presennol yn sgil y dystiolaeth ddiweddaraf am yr arferion a'r datblygiadau mewn technoleg
2. Aralleirio'r Meini Prawf presennol er mwyn osgoi amwysedd a chamddehongli
3. ystyried lle yn y Safonau y mae angen Meini Prawf
4. ystyried a datblygu'r Safonau er mwyn ymgorffori camau sicrhau ansawdd Sgrinio Clyw Babanod Cymru
5. ystyried a ddylai'r system sgorio fod yn debyg i system y Safonau Ansawdd diwygiedig ar gyfer Adsefydlu Oedolion
6. ystyried ymgorffori gofynion wedi'u safoni o ran tystiolaeth

Ymgynghori

Ymgynghorwyd ddwywaith ar y fersiwn ddrafft. Yn gyntaf, ceisiwyd barn gan y rheini sydd â phrofiad sylweddol o ddefnyddio'r fersiwn wreiddiol o'r Safonau, gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Awdioleg y GIG, peidiatregyddion sy'n gweithio ym maes Awdioleg, ac Archwilwyr allanol o Wasanaethau Awdioleg y GIG a NDCS.

Roedd yr ail gam ymgynghori yn cynnwys y grŵp gwreiddiol ac fe'i hehangwyd i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, Athrawon Arbenigol i Blant â Nam ar y Clyw, Therapyddion Iaith a Lleferydd Arbenigol, a chyrrff proffesiynol yn cynnwys ENT Cymru, BAPA a BAAP. Ymgynghorwyd drwy holiadur ar-lein.

Defnyddiwyd yr adborth o'r ddau gam ymgynghori er mwyn datblygu drafftiau pellach o'r Safonau Ansawdd diwygiedig hyn.

Y Cyd-destun a'r Dull o Ddisgrifio Ansawdd Gwasanaeth

Mae'r safonau yn dilyn trefn sy'n adlewyrchu llwybr y claf fel a ganlyn:

Safonau Ansawdd ar gyfer Awdioleg Plant
Safon 1 Defnyddio'r Gwasanaeth
Safon 2 Asesu
Safon 3 Cynllun Rheoli Awdiolegol Unigol
Safon 4 Rheoli, Dewis, Gwirio a Gwerthuso Cymhorthion Clyw
Safon 5 Sgiliau ac Arbenigedd
Safon 6 Darparu Gwybodaeth a Chyfathrebu â Phlant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd
Safon 7 Cydweithio
Safon 8 Gwella'r Gwasanaeth
Safon 9 Gofalu am y Plentyn yn Ehangach

Mae cynnwys safonau 1-8 wedi'i gyfyngu'n fwriadol i eitemau sy'n berthnasol i Awdioleg yn unig neu sy'n haeddu sylw arbennig y tu hwnt i safonau iechyd a gofal mwy arferol, gofynion deddfwriaethol a llywodraethol, neu arferion da cyffredinol. O ganlyniad dylai'r safonau hyn, sy'n benodol i'r gwasanaeth, gyd-fynd â'r gofynion eraill; maent yn fwy penodol ac wedi'u seilio'n fwy ar dystiolaeth er mwyn helpu i ddiffinio'r hyn sy'n gwneud ansawdd gwasanaeth yn dda ac i roi'r canlyniadau gorau i gleifion.

Roedd meysydd eraill fel ymchwiliadau achosegol, opsiynau cyfathrebu a Chynlluniau Cymorth Aml-asiantaeth a oedd yn ymddangos yn hanfodol er mwyn rhoi'r gofal gorau, ond a oedd y tu allan i gylch gorchwyl Awdioleg. Cafodd y meysydd hyn eu cynnwys yn Safon 9, Gofalu am y Plentyn yn Ehangach.

Mae'r meini prawf sy'n ymwneud â Sicrwydd Ansawdd NBSHW yn plethu â'r brif ddogfen, ond bydd y data yn cael ei ddefnyddio a'i gofnodi ar wahân gan NBHSW.

Mae'r safonau'n disgrifio arferion da a'r hyn y dylid ei ddefnyddio i gael tystiolaeth o ganlyniadau iechyd.

Fodd bynnag, ni ddylid dibynnu ar gydymffurfio â'r safonau'n unig wrth bennu pa mor effeithiol yw gwasanaethau wrth roi canlyniadau a bodlonrwydd i gleifion.

Y Newidiadau yn yr Ail Fersiwn

Dyma'r prif newidiadau yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Safonau:

- Datblygiad rhesymeg a meini prawf ychwanegol ar gyfer gofalu am blant sydd â chymhorthion clyw
- Cynnwys camau sicrhau ansawdd NBHSW wrth gynnal asesiadau diagnostig a rheoli awdiolegol cynnar
- Amrediad sgorio newydd gan symud o 1-5 yn y fersiwn gyntaf i 0-4 lle bydd methu â chydymffurfio bellach yn cael sgôr o 0%
- Cynnwys rhestr o dystiolaeth bosibl y gellir ei defnyddio i ddangos sut mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r meini prawf

Y Safonau

Ffurf

Mae'r Safonau yn cynnwys naw o *Ddatganiadau o Safonau* sy'n egluro lefel y perfformiad sy'n ddisgwyliedig. I gyd-fynd â'r rhain mae *Rhesymeg* sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a honno'n egluro pam yr ystyrir y Safon yn un bwysig. Mae'r *Datganiadau o Safonau* yn ymestyn wedyn i gynnwys nifer o Feini Prawf sy'n datgan yn glir beth sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'r safon. Mae'r *Datganiadau o Safonau* wedi'u rhestru isod. Mae manylion am y *Rhesymeg* sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth, y rhestr gyfeirio sy'n cyd-fynd â hi, a'r *Meini Prawf* i gyd wedi'u cynnwys yn y *Pecyn Asesu ac Archwilio* sy'n mynd law yn llaw â'r ddogfen hon.

Y Datganiadau o Safonau

Safon 1. Defnyddio'r Gwasanaeth

Bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd â phroblemau clywed ac sydd angen defnyddio gwasanaethau Awdioleg, ynghyd â'u teuluoedd:

- yn gallu defnyddio'r gwasanaeth Awdioleg cywir sy'n cwrdd â'u hanghenion,
- yn gallu cyrraedd y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt yn gyfleus,
- yn gallu defnyddio'r gwasanaeth Awdioleg mor gyflym ag unrhyw wasanaethau meddygol cymharol eraill.

Caiff data am y galw am wasanaethau a data cyfeirio ei fonitro'n gywir, ei adolygu a'i gofnodi ochr yn ochr â'r dangosyddion sydd ar gael, a'i ddefnyddio wedyn i gynllunio'r gwasanaeth.

Safon 2. Asesu

Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael asesiad Awdiolegol sy'n gweddu i'r unigolyn, a hwnnw'n addas i'w hoedran a'u datblygiad. Caiff yr asesiadau eu cynnal yn unol â'r safonau cenedlaethol cydnabyddedig, pan fydd rhai'n bodoli.

Safon 3. Cynllun Rheoli Awdiolegol Unigol

Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cynllun unigol wedi'i ddatblygu ar eu cyfer er mwyn rheoli eu hanghenion. Bydd y cynllun hwn:

- wedi'i seilio i ddechrau ar y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y cyfnod asesu,
- yn cael ei bennu ar y cyd â'r plentyn a/neu'r teulu,
- yn cael ei ddiweddarau ar sail barhaol,
- ar gael i'r tîm clinigol,
- yn cynnwys gwybodaeth am yr ymyriadau a argymhellir er mwyn ateb anghenion yr unigolyn yn y ffordd orau,
- yn dilyn y person ifanc wrth iddo drosglwyddo i wasanaethau oedolion.

Safon 4. Rheoli, Dewis, Gwirio a Gwerthuso Cymhorthion Clyw

Lle bydd angen darparu cymhorthydd neu gymhorthion clyw, bydd y gwasanaeth yn sicrhau:

- bod cymhorthion clyw yn cael eu rhoi'n brydlon,
- bod cymhorthion clyw yn cael eu dewis, a rhaglenni'n cael eu darparu, sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion yr unigolyn,
- bod gweithdrefnau a phrotocolau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer eu ffitio a'u gwirio yn cael eu dilyn ar y lefel leol,
- bod y budd o'r cymhorthion clyw yn cael ei werthuso a chamau'n cael eu cymryd os nad ydynt yn gweithio ar eu gorau,
- bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r cymhorthion clyw,
- bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael gwybod am gymhorthion amgylcheddol a thechnolegau eraill, a'u cyfeirio at y rhain.

Ar ôl ffitio'r cymhorthydd clyw, bydd gwasanaethau'n rhoi cyfleoedd cyson i'r unigolion gael mowldiau clust newydd ac i atgyweirio'r cymhorthion clyw.

Safon 5. Sgiliau ac Arbenigedd

Bydd gan bob gwasanaeth, gan ddefnyddio dull llywodraethu tîm, y gallu clinigol angenrheidiol i asesu ac ymyrryd mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Caiff pob tasg ei gwneud o fewn fframwaith sefydledig sydd wedi'i seilio ar gymwyseddau ac wedi'i chytuno'n genedlaethol.

Safon 6. Darparu Gwybodaeth a Chyfathrebu â Phlant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd

Bydd y gwasanaethau yn rhoi manylion cyswllt yr adran i deuluoedd a gwybodaeth brydlon am ganlyniadau asesiadau. Dylai gwybodaeth fod ar gael am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i deuluoedd a phlant a phobl ifanc. Dylai'r wybodaeth a roddir fod yn newis iaith y teulu os yw hynny'n bosibl.

Safon 7. Cydweithio

Bydd gan bob gwasanaeth Awdioleg i blant brosesau a strwythurau i sicrhau cydweithio a chyfathrebu effeithiol, a hynny o fewn tîm aml-ddisgyblaethol sy'n meithrin perthynas gyda phob newydd-anedig, baban, plentyn neu berson ifanc, a'u teulu.

Bydd gan bob gwasanaeth rôl bwysig wrth hwyluso a chyfrannu at ddatblygu ac adolygu'n gyson y Cynllun Cymorth Aml-asiantaeth ar gyfer pob baban newydd-anedig, baban hŷn, plentyn a pherson ifanc sydd â nam sylweddol ar y clyw.

Safon 8. Gwella'r Gwasanaeth

Bydd gan bob gwasanaeth brosesau er mwyn mesur ansawdd y gwasanaeth. Bydd yr ansawdd yn cael ei fesur er mwyn cynllunio gwelliannau i'r gwasanaeth a'u rhoi ar waith.

Bydd gan bob gwasanaeth brosesau er mwyn ymgynghori'n rheolaidd â theuluoedd a phobl ifanc (yn ddelfrydol drwy gael adborth gan y plant eu hunain) ac â rhanddeiliaid pwysig.

Safon 9. Gofalu am y Plentyn yn Ehangach

Bydd pob tîm cydweithredol yn dangos bod ganddynt, o fewn eu tîm, y gallu clinigol angenrheidiol i gefnogi'r asesiadau a'r ymyriadau y maent yn eu gwneud. Byddant hefyd yn rhoi cymorth ac arweiniad i fabanod newydd-anedig, babanod hŷn, plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill. Mae hyn yn cynnwys eu cyfeirio at ymchwiliadau achosegol a thrafod a darparu gwahanol opsiynau cyfathrebu.

Y Cynllun Rheoli Unigol

Mae'r Cynllun Rheoli Unigol yn elfen bwysig iawn yn y Safonau Ansawdd ar gyfer Awdioleg Plant. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod mai nad gofyn i wasanaethau awdioleg wneud rhywbeth newydd oedd diben cyflwyno'r Cynllun Rheoli Unigol. Mae'n syniad sydd wedi'i seilio'n gadarn ar arferion da sy'n bodoli'n barod. Yn ei hanfod, nid yw'r Cynllun Rheoli Unigol yn ddim mwy na chofnod o'r sgysiau y bydd awdiolegwyr da eisoes yn eu cael â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd; sgysiau am yr hyn y maent yn ei deimlo, ei eisiau neu'n ei ddisgwyl; sgysiau am yr hyn y gall yr awdiolegydd ei gynnig, a sut y bydd yr awdiolegydd a'r plentyn/person ifanc/y teulu yn cytuno i symud yn eu blaenau.

Nid oes ffurf na thempled penodol ar gyfer y Cynllun. Rhagdybir y bydd gan lawer o wasanaethau eisoes nodiadau manwl am y sgysiau hyn yng nghofnodion eu cleifion. Nid yw'r Cynllun yn ffurflen sy'n olrhain hanes y claf nac yn gofnod o ganlyniadau'r asesiad, er y bydd hanes y claf a statws y clyw yn bendant yn help i fod yn sail i'r Cynllun ac felly'n debygol o gael eu crynhoi ynddo. Yr hyn sy'n bwysig yw y gall gwasanaeth awdioleg ddangos ar gyfer pob claf fod unrhyw asesiadau sydd i'w cynnal ac unrhyw ymyriadau neu benderfyniadau i gyfeirio ymlaen wedi cael eu trafod yn drylwyr a'u cytuno â'r claf. Dylai pawb sy'n rhan o'r sgwrs sy'n sail i greu cynllun rheoli gael cyfle i 'gytuno ar gofnodion' y sgwrs honno. Mewn geiriau eraill, dylent wybod yn union pa benderfyniadau a wnaed a pham, a dylai fod ganddynt ddealltwriaeth glir ynghylch sut a pha bryd y bydd triniaeth neu asesiad pellach yn digwydd.

Drwy gael sgwrs a chyfnewid gwybodaeth yn yr apwyntiad hwn a rhai dilynol, bydd yr awdiolegydd a'r plentyn/person ifanc/y teulu yn edrych ar yr hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud, a chaiff yr anghenion a'r camau gweithredu y cytunir arnynt ar gyfer y claf eu hadolygu a'u diweddarau dros amser.

Y Sail Dystiolaeth

"Evidence-based medicine is the integration of best research evidence with clinical expertise and patient values," (Sackett et al., 2000 t. 1).

Mae'r sail dystiolaeth bresennol wedi cael ei hadolygu'n drylwyr. Lle'r oedd hynny'n bosibl, ymchwil cyhoeddedig, wedi'i hadolygu gan gydweithwyr, oedd sylfaen y sail dystiolaeth. Mae erthyglau o ddarnau eraill o lenyddiaeth wedi'u cynnwys os oedd y gweithgor yn credu bod hynny'n briodol. Er mwyn galluogi'r darllenydd i weld y lenyddiaeth berthnasol sy'n cyd-fynd â phob safon unigol, mae'r golofn rhesymeg bellach yn cynnwys cyfeiriadau wedi'i rhifo. Mae'r pecyn asesu sy'n cyd-fynd â'r Safonau yn rhoi manylion llawn y rhestr gyfeirio ar gyfer pob safon. Ceir hefyd nifer o ddogfennau cyffredinol sydd wedi bod yn sail i ddatblygu'r ail fersiwn, ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

Deddf Cydraddoldeb 2010. Llundain: HMSO.

LLYWODRAETH YR ALBAN, 2012. *A Guide to Getting it Right for Every Child* [online]. Caeredin: Llywodraeth yr Alban. Ar gael o: <http://www.gov.scot/resource/0042/00423979.pdf>

NDCS., 2013. *Audiology Service Provision in the UK* [ar-lein]. Llundain: NDCS. Ar gael o: <http://www.ndcs.org.uk/aboutus/ndcspoliciesandpositionstatements/index.html>

LLYWODRAETH YR ALBAN, 2013. *Supporting Young People's Health & Wellbeing -A Summary of Scottish Government Policy*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

LLYWODRAETH YR ALBAN, 2013. *See Hear: A strategic framework for meeting the needs of people with a sensory impairment in Scotland*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

GIG Cymru, 2013. *Safonau Cymru Gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau*. Cymru: GIG Cymru. Ar gael o <http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/standards/?skip=1&lang=cy>

Children and Young People (Scotland) Act. 2014. Norwich: TSO.

Public Bodies (Joint Working) (Scotland) Act. 2014. Norwich: TSO.

BRADLEY, P. a WILSON, A., 2014. *Achieving prudent healthcare in NHS Wales (revised)*. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru.

YR ADRAN IECHYD, 2004. *The NHS Knowledge and Skills Framework and the Development Review Process*. Llundain: Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd.

HCPC., 2014. *Standards of proficiency - Clinical scientists* [online]. Llundain: HCPC. Ar gael o: [http://www.hcpcuk.org/assets/documents/1000050AStandards_of_Proficiency_Clinical_Scientists.p df](http://www.hcpcuk.org/assets/documents/1000050AStandards_of_Proficiency_Clinical_Scientists.pdf).

CLINICAL STANDARDS GROUP BRITISH ASSOCIATION OF AUDIOLOGICAL PHYSICIANS, 2011. *Clinical standards. Setting standards to improve care for patients with hearing and balance disorders* [online]. Llundain: BAAP. Ar gael o:

<http://www.baap.org.uk/Portals/0/Content/Documents/stories/baapcs.pdf>

HARDING, J. 2013. *Report on Quality-Assuring the NBHSW Peer Review Process, 2012*. Cymru: NBHSW. Ar gael o: <http://www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk/>

ADRAN SGIRINO IECHYD CYHOEDDUS CYMRU, 2015. *Newborn Hearing Screening Wales. Annual Performance Results 2013-14* [online]. Cymru: Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael o: <http://www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk/>

NDCS., 2011. *Quality Standards: Transition from paediatric to adult audiology services*. Llundain: NDCS.

YR ADRAN IECHYD (DH), 2007. *A Transition Guide for all Services. Key Information for Professionals about the Transition Process for Disabled Young People*. Nottingham: DCSF Publications.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cymru: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael o: <http://gov.wales/legislation/?lang=cy>

Y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2015. Cymru: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael o: <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/>

LLYWODRAETH CYMRU, 2014. *Cymwys am Oes*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: <http://gov.wales/topics/education>

DONALDSON, G. 2015. *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael o: <http://gov.wales/topics/educationandskills/?lang=cy>

Archwiliadau Allanol i Fesur Sut y Cyflawnir y Safonau

Mae'r broses ar gyfer hunanasesu ac archwiliadau allanol i fesur sut y cyflawnir y Safonau wedi'i nodi mewn manylder yn y ddogfen, *Audiology Arrangements for the External Audit of Children's Audiology Services against the Quality Standards for Children's Audiology*, sy'n cydfynd â'r ddogfen hon.

Egwyddorion a Phrif Nodweddion y Broses Archwilio Allanol

- Amcan y broses archwilio yw cadarnhau'n allanol y sgoriau hunanasesu (a'r dystiolaeth) sy'n ymwneud â'r safonau'n unig. Nid y nod yw gwerthuso sut mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli na gwneud argymhellion helaeth ar gyfer gwella.
- Dylai'r broses archwilio fod yn gadarn, yn berthnasol, yn effeithiol, yn deg ac yn gyson.
- Rhagdybir y bydd hunanasesiad llawn wedi'i gwblhau cyn yr ymweliad allanol ac y bydd deunydd sy'n rhoi tystiolaeth ar gael yn barod pan fydd yr archwilwyr allanol yn ymweld.
- Bydd ymweliadau'n cael eu cynnal ar y cyd gan dîm archwilio allanol; yn cynnwys y Prif Archwilydd (Awdiolegydd Paediatrig) a Phaediatregydd sy'n gweithio mewn Awdioleg o wasanaeth arall, ynghyd â chynrychiolydd o'r NDCS.
- Bydd archwilwyr allanol yn ymweld â phob Bwrdd Iechyd bob dwy flynedd.
- Bydd Pennaeth Awdioleg pob Bwrdd Iechyd yn dewis cyflwyno un sgôr hunanasesu ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan, neu gyflwyno sgoriau hunanasesu ar wahân ar gyfer pob 'gwasanaeth' o fewn y Bwrdd Iechyd. Diffinnir gwasanaethau fel adrannau parhaol sydd â staff parhaol (ynghyd â'u safleoedd lleol) – gan adlewyrchu'r rheini sydd wedi cynnal hunanasesiadau blaenorol. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Powys, lle bydd asesiadau unigol yn cael eu cynnal o wasanaethau y gwahanol ddarparwyr. Fodd bynnag, bydd un ymweliad safle, sef â'r unig un lle mae staff parhaol (Aberhonddu).
- Bydd ymweliad yr archwilwyr allanol yn cael ei gwblhau dros ddiwrnod (fel arfer 6-7 awr), gan ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer teithio. Dim ond y ganolfan ganolog fydd yn cael ymweliad, yn hytrach na'r safleoedd lleol. Pan fydd y Pennaeth Awdioleg wedi dewis cyflwyno un hunanasesiad ar gyfer yr holl Fwrdd Iechyd, bydd Pennaeth Awdioleg y safle hwnnw yn dewis pa adran yn y gwasanaeth fydd yn cael ymweliad fel rhan o'r archwiliad allanol.
- Sgoriau dros dro a roddir ar gyfer meini prawf NBHSW ar adeg yr ymweliad. Bydd Tîm NBHSW yn adolygu'r sgoriau hyn ac efallai y byddant yn cael eu safoni.
- Rhaid cyflwyno sgoriau a asesir yn allanol i'r Prif Weithredwyr ac i Benaethiaid Awdioleg pob gwasanaeth perthnasol, cyn y byddant ar gael i ASSAG ac yn gyhoeddus (ee ar wefan Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru).

- Bydd ASSAG yn penodi cydlynnydd i weinyddu'r cynllun, i gasglu'r canlyniadau, ac i gyflwyno adroddiad i ASSAG ar ôl pob archwiliad.
- Bydd proses apelio ar gael ar gyfer herio'r sgôr allanol neu'r broses archwilio.